**CYNGOR CYMUNED BUAN**

**Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor, gynhaliwyd Nos Iau, 9 Tachwedd, 2023**

**Yn Tu Hwnt i'r Afon, Rhydyclafdy am 7.30 yh**

**<u>Presennol:</u>**

**Cynghorwyr**

Hughie Williams (Cadeirydd)

Rhys Jones (Is-Gadeirydd)

Catherine Hughes

Dafydd Ll Williams

Nia M Jones

Phil Roberts

Cynghorydd Sirol Anwen Davies

Tesni Jones

Nia Jane Owen-Midwood (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau**
   Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Einir Lewis a'r Cynghorydd Gareth W Roberts.

2. **Cadarnhau cofnodion cyfarfodydd Medi a Hydref.**
   Cadarnhawyd bod cofnodion 14/09/23 a 12/10/23 yn gywir gan Cynghorydd Catherine Hughes ac fe'i heilwyd gan y Cynghorydd Phil Roberts.

3. Bu i HW drafod y ddau ddyfynbris ar gyfer concrid i'r Cae Chwarae. Nid yw wedi eu derbyn eto, ond yn gaddo y bydd erbyn cyflywno yn y cyfarfod nesaf 14/12/23.

4. Trafodwyd Rîth "Sul y Cofio". Mae Cyngor Cymuned Buan wedi archebu rîth am swm o £25.00. Cytunwyd y byddai'r Cynghorydd Siriol yn ei gosod wrth fynedfa'r Eglwys ym Moduan. Darparwyd siec yn ystod y cyfarfod, a chytunwyd y byddai'r Clerc yn ei danfon i dŷ Myfanwy Hughes (Morfa Nefyn) erbyn y penwythnos.

5. Adroddwyd yr Is-gadeirydd bod Pwyllgor Cae Chwarae, Rhydyclafdy wedi bod yn llwyddiannus yn derbyn grant gan Mantell Gwynedd am swm o £72,000. Mae swm y gwaith yn gyfangwbl yn mynd i gostio oddeutu £100,000, felly mae

cynlluniau ar y gweill gan y Pwyllgor Cae Chwarae i godi arian ychwanegol a chael dechrau ar y Cynllun.

Nodwyd y Cynghorydd Sirol ei bod hi wedi cysylltu gyda Chyngor Gwynedd, a'u bod nhw wedi ei hysbysu ei bod hi'n iawn iddynt gario mlaen gyda'r gwaith.

Trafodwyd y gytundeb ffurfiol rhwng "Cyngor Cymuned Buan" a Phwyllgor y Cae Chwarae, a rhanwyd y ddogfen o amgylch y bwrdd. Roedd pawb yn hollol gefnogol o'r Cynllun. Cytunwyd i'r Is-Gadeirydd fynd ar ddogfen gydag ef er mwyn i Eleri Williams cael ei llofnodi, a'i dychwelyd i'r cyfarfod nesaf 14/12/23.

Byd Cyfarfod Pwyllgor y Cae Chwarae yn cyfarfod 16/11/23.

6. Nid oedd cais cynllunio i'w drafod.

7. Trafodwyd ffordd hwylusach i ymddiheuro i'r Clerc, os and ydynt yn gallu mynychu'r Cyfarfod Misol a cytunwyd y byddai pawb yn gallu cysylltu gyda hi drwy ebost neud drwy yrru neges destun i'w ffôn symudol.

8. Trafodwyd ohebiaeth oedd wedi ein cyrraedd :

   Theatr Bara Caws – Cytunwyd na fyddai'r Cyngor Cymuned yn rhoi cyfraniad iddynt ar yr achlysur yma.

   Elusen Ambiwlans Awyr Cymru – Cytunwyd i gefnogi'r elusen yma gan roi cyfraniad o £200 iddynt. Clerc i drefnu eu ebostio, llythyru a danfon siec ymlaen iddynt.

   Radio Ysbyty Gwynedd – Gan bod y gohebiaeth wedi ein cyrraedd brynhawn 09/11/23 penderfynwyd i bawb gael amser i ddarllen yr ohebiaeth, a thrafod y mater yng nghyfarfod 14/12/23.

9. Materion Ariannol

   Cysoniad banc o ddyddiad:

   04/09/23 – 03/10/23 - £7,154.55c<br>04/10/23 – 03/11/23 - £6,366.63c

   Cafodd 9 siec eu harwyddo yn ystod y mis gan y Cynghorydd Catherine Hughes a'r Cynghorydd Rhys Jones.

| | | |
|---|---|---|
| Rhent Tir y Cae Chwarae yn Rhydyclafdy | £1.00 | Siec Rhif 200755 |
| Bacstal | £141.00 | Siec Rhif 200756 |
| Ad-dalu NJOM – Costau Teithio | £6.30 | Siec Rhif 200757 |
| Nia Jane Owen-Midwood Cyflog Mis 8 | £111.79 | Siec Rhif 200758 |
| Cyllid a Thollau | £28.00 | Siec Rhif 200759 |
| Ad-dalu NJOM – Câs Laptop Newydd | £14.58 | Siec Rhif 200760 |
| Talu F Jones (Torri Gwellt) | £2,700.00 | Siec Rhif 200761 |
| Talu am Rîth – Sul y Cofio | £25.00 | Siec Rhif 200762 |
| Cyfraniad Cyngor Cymuned Buan i Elusen Ambiwlans Awyr Cymru | £200.00 | Siec Rhif 200763 |

10. Rhoddwyd y Clerc ddrafft o'r Adroddiad Flynyddol 21/22 i'r Cadeirydd er mwyn llunio un newydd ar gyfer 22/23.

11. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu gyda Bleddyn Rhys, Archwilio Mewnol, Cyngor Gwynedd er mwyn eu comisynnu i gwblhau ein archwiliad ar gyfer 2023/2024.

12. Trafodwyd y Cynghorydd Sirol fater Bodwyn, Boduan. Trafodwyd y fainc sydd ar y tir. Nodwyd ei bod wedi cysylltu gyda Carter Jonas, Cyngor Gwynedd, Eglwys yng Nghymru, a'r "Land Registry". Gan bod perchnogion Bodwyn wedi hawlio'r tir, mae wedi cysylltu gyda'i chyfreithwr, ac y bydd yn trefnu i'w llythyru.

    Nodwyd bod y plac ar y fainc wedi diflannu. Cytunwyd bod angen cael rhiwyn i gerfio'r ysgrifen yn ôl arni. Bu i ni grybwyll Mr Tanner a chytuwnyd y byddai'r Cynghorydd Catherine Hughes yn cysylltu ag ef.

    Diolchodd y Cadeirydd iddi am ei gwaith.

13. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn gyrru nodyn o ddiolch i Gareth Roberts, Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol Dwyfor i ddiolch iddo am y gwaith barbio taclus iawn yn Ardal Boduan.

14. Bu i'r Is-gadeirydd arwyddo ei ffurflen lwfans cynghorwyr am y cyfnod rhwng Ebrill 23-Mawrth 24.

15. Trafodwyd batri'r "Di-fib" ger Talybont, Rhydyclafdy a bod angen gwneud penderfyniad am ei ddyfodol. Cytunwyd pan wneith y batri yma orffan i'r cadeirdydd wneud trefniadau i'w ddi-gomisiynnu.

16. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – Nos Iau, 14 Rhagfyr 2023 am 7.30 yh yn Tu Hwnt I'r Afon, Rhydyclafdy.